

Negyddol Arfaethedig Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

9 Tachwedd 2020

Pn(5)33 – Rheoliadau Maethiad (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Gweithdrefn: Negyddol Arfaethedig

Bwriedir gwneud y Rheoliadau hyn o dan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, er mwyn ymdrin â diffygion sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau'n gwneud mân ddiwygiadau technegol i Reoliadau Maethiad (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019, megis disodli cyfeiriadau at y DU gyda chyfeiriadau at Brydain Fawr er mwyn adlewyrchu Protocol Gogledd Iwerddon. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn cadarnhau nad yw'r Rheoliadau'n gwneud unrhyw newidiadau polisi.

Cafodd y Rheoliadau hyn eu gosod at ddibenion sifftio o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018 yn unol â Rheol Sefydlog 27.9A.

Rhiant-Ddeddf: Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Bodlonwyd Gofynion y Sifft: Ie

Rydym yn cytuno mai'r weithdrefn penderfyniad negyddol yw'r weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn.

Pn(5)35 – Rheoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Gweithdrefn: Negyddol Arfaethedig

Diben Rheoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 ("y Rheoliadau") yw sicrhau bod cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithredu'n effeithiol unwaith y bydd y DU yn gadael yr UE.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019").



Mae Rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau 2019, sydd yn eu tro yn diwygio Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011 er mwyn cywiro gwall mewn cyfeiriadau.

Mae Rheoliad 4 yn diwygio Rheoliadau 2019, sydd yn eu tro yn diwygio Rheoliadau Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (Grantiau) (Cymru) 2016. Bydd y cynllun a chyllid Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop yn parhau i gael eu llywodraethu gan yr UE hyd nes y bydd y rhaglenni a'r gweithgareddau hynny'n cau, fel y nodir yn Erthygl 138 o'r Cytundeb Ymadael. Bydd cyfraith berthnasol yr Undeb Ewropeaidd yn parhau i fod yn berthnasol yn uniongyrchol yn y DU ac ni fydd yn dod yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir, o ganlyniad i adran 7A ac adran 3(2)(bi) o Ddeddf Ymadael â'r UE 2018, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr UE (Y Cytundeb Ymadael) 2020. Gwneir diwygiadau, felly, i Reoliadau 2019, sy'n ymwneud â Rheoliadau 2016, i adlewyrchu'r sefyllfa bod deddfwriaeth yr UE y cyfeirir ati yn Rheoliadau 2016 yn cael effaith yn rhinwedd y Cytundeb Ymadael, a Deddf yr UE (Ymadael).

Cafodd y Rheoliadau hyn eu gosod at ddibenion sifftio o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018 yn unol â Rheol Sefydlog 27.9A.

Rhiant-Ddeddf: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Bodlonwyd Gofynion y Sifft: Ie

Rydym yn cytuno mai'r weithdrefn penderfyniad negyddol yw'r weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn.

